*(NODER: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EU CADARNHAU GAN Y PWYLLGOR YN EI GYFARFOD NESAF)*

**Cyd-Bwyllgor ERW**
**Dydd Gwener, 8fed Chwefror, 2019**
**Y Llwyfan, College Road, Carmarthen**
**10.00 yb - 12.50 yp**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn [Cadair], Cyngor Sir Ceredigion

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Glynog Davies | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Y Cynghorydd Rosemarie Harris | Cyngor Sir Powys |
| Y Cynghorydd Rob Jones | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Y Cynghorydd David Simpson | Cyngor Sir Penfro |
| Y Cynghorydd Jennifer Raynor | Cyngor Abertawe |
| | |
| Mr Eifion Evans | Cyngor Sir Ceredigion |
| Mr Steven Phillips | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Mr Ian Westley | Cyngor Sir Penfro |
| | |
| Councillor Peter Rees | Cyngor Castell-nedd Port Talbot |
| Mr Ian Budd | Cyngor Sir Powys – Cyfarwyddwr Arweiniol ERW |
| Mr Gareth Morgans | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Mr Mark Sheridan | Cyngor Abertawe |
| Mr Geraint Rees | Tîm Uwch-arweinwyr ERW |
| Mr Jonathan Haswell | Cyngor Sir Penfro (ERW - Swyddog Adran 151) |
| Mr Ian Eynon | Cyngor Sir Penfro (Dirprwy Swyddog Adran 151) |
| Ms Elin Prysor | Cyngor Sir Ceredigion (ERW - Swyddog Monitro) |
| Mr Steve Vincent | Llywodraeth Cymru |
| Mr Matthew Holder | Cyngor Sir Penfro (Archwilio) |
| Ms Katie Morgan | Uwch-cyfrifydd, ERW |
| Mr Mark Campion | ESTYN |
| Mrs Jessica Laimann | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |
| Ms Janine Owen | Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Emlyn Dole (Cyngor Sir Caerfyrddin), y Cynghorydd Rob Steward (Cyngor Abertawe), Mark James (Cyngor Sir Caerfyrddin), Phil Roberts (Cyngor Abertawe) a Jo Hendy (Cyngor Sir Penfro).

Dywedodd y Cadeirydd fod Rheolwr-gyfarwyddwr ERW, Ms Betsan O'Connor wedi ei secondio i Lywodraeth Cymru a diolchodd iddi am ei gwaith.

**NEWID TREFN Y MATERION**
Cytunodd y Cyd-bwyllgor, ar gais y Cadeirydd, i amrywio trefn y busnes ar yr agenda er mwyn symud Eitem 10 (Cynnig Adolygu a Diwygio ERW) i'w thrafod ar ôl Eitem 6 (Gohebiaeth).

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. LOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR AR Y CYD A GYNHALWYD AR Y 12 HYDREF 2018**

Mewn perthynas ag Eitem 7 ar yr Agenda - Cyllideb, awgrymodd y Swyddog Monitro y dylid diwygio penderfyniad 7.2, er eglurdeb, i ddarllen fel a ganlyn:

***7.2. "bod penderfyniad ynghylch y camau gweithredu y gellir eu cymryd pe na fyddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn talu ei gyfran o'r Cyfraniad Awdurdodau Lleol (£250k) ar gyfer 2018-19 yn cael ei atal am y tro. Nodi sefyllfa Cyngor Castell-nedd Port Talbot."***

Yn ogystal, dywedwyd y dylid dileu'r term "Cyfarwyddwr Arweiniol" mewn perthynas â chynrychiolydd CNPT yn Eitem 6.1 er mwyn osgoi dryswch o ran swydd Cyfarwyddwr Arweiniol ERW. [Y cynrychiolydd yw'r Cyfarwyddwr Addysg yn CNPT.]

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2018 gan eu bod yn gywir, yn amodol ar y newidiadau uchod.**

**4. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION**

Cofnod 6.1 - Adolygiadau Llywodraeth Cymru o'r Grant Gwella Addysg a'r Grant Datblygu Disgyblion

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr archwiliad gwerth am arian a gynhaliwyd gan Rod Alcott a gofynnodd a oedd unrhyw adborth ar gael. Yn anffodus nid oedd adborth ar gael gan fod Ruth Conway yn absennol.

## 5. DIWEDDARIAD GAN Y PRIF WEITHREDWR ARWEINIOL A LOG PENDERFYNIADAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd yr eitem yn berthnasol i'r cyfarfod heddiw gan nad oedd diweddariad wedi dod i law.

## 6. GOHEBIAETH

### GRŴP CYNGHORWYR - CRAFFU AR ERW

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried llythyr dyddiedig 1 Chwefror 2019 gan y Cynghorydd Alex Thomas, Cadeirydd y Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW, a oedd yn rhoi ymatebion i faterion a godwyd yng nghyfarfod y Grŵp Cynghorwyr - Craffu ar ERW ar 10 Ionawr 2019. Nodwyd y cynhaliwyd y cyfarfod ychwanegol hwn er mwyn trafod cynnydd Rhaglen Adolygu a Diwygio ERW a bod Cadeirydd Cyd-bwyllgor ERW, Prif Weithredwr Arweiniol ERW, a Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro ERW wedi cael eu gwahodd. Mynegodd y Cadeirydd ei gwerthfawrogiad i Mr Geraint Rees am ei gyflwyniad o'r Rhaglen Adolygu a Diwygio.

**NODWYD.**

## 7. CYNNIG AR ADOLYGU AC ADNEWYDDU ERW

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried Cynnig Adolygu a Diwygio ERW ynghylch rôl a strwythur ERW yn y dyfodol. Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor fod y cynnig wedi'i lywio gan broses ymgysylltu helaeth gydag Arweinwyr Adran Addysg y chwe Awdurdod Lleol a thros 300 o benaethiaid ledled y rhanbarth. Dywedwyd hefyd bod symud y Rhaglen Adolygu a Diwygio yn ei blaen yn hanfodol gan y bydd llawer o gontractau staff yn dod i ben ar ddiwedd mis Mawrth ac y byddai cwricwlwm newydd yn cael ei gyhoeddi dros y Pasg.

Codwyd y materion canlynol wrth ystyried y cynnig:

- Gwnaed nifer o sylwadau i groesawu'r gwaith o ymgysylltu â Chyfarwyddwyr Addysg a phenaethiaid.

- Croesawyd tabl yn y cynnig a amlinellai gyfrifoldebau'r Rhanbarth, yr Awdurdodau Lleol a'r Ysgolion. Awgrymwyd y gellid gyflwyno colofn ychwanegol mewn perthynas â chyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr Addysg.

- Gwnaed nifer o sylwadau i awgrymu bod lles a llesiant staff yn bryderon mawr a bod angen gwneud penderfyniad ynghylch y strwythur staffio ar frys o ystyried bod y contractau ar fin dod i ben.

- Roedd rhai o'r sylwadau'n awgrymu bod cyllid yn bryder mawr mewn perthynas â'r cynnig. Mewn ymateb i sylw ynghylch cyfraniadau Awdurdodau Lleol, rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu £500k ychwanegol o gyllid "Adolygu a Diwygio" ar gyfer 2019-20, sy'n golygu ei bod yn bosibl y bydd cyfraniadau Awdurdodau Lleol yn dyblu, yn hytrach na phedryblu. Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor fod y cyllid yn cael ei roi yn amodol ar gael ei gymeradwyo gan y Gweinidog ac yn amodol ar gyfraniad pob un o'r chwe Awdurdod Lleol, a bod y Cyd-bwyllgor yn cytuno ar fethodoleg cyllid cynaliadwy.

- O ystyried y pryderon ynghylch cyllido, awgrymwyd bod llythyr yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru i ofyn am hyblygrwydd o ran defnyddio'r Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol i gyllido darpariaeth tîm canolog craidd ERW.

- O ystyried y pryderon ynghylch llesiant staff a'r angen i roi sicrwydd i staff, awgrymwyd bod y Strwythur Staffio'n cael ei gymeradwyo'n annibynnol i Gyllideb 2019-20.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**7.1 gymeradwyo cynnig Adolygu a Diwygio ERW fel model waith, yn amodol ar drafodaethau pellach am y gyllideb;**

**7.2 bod cyfanswm y cyfraniad Awdurdod Lleol ar gyfer 2019-20 yn parhau i fod yn £250k;**

**7.3 anfon llythyr i Lywodraeth Cymru a chynnwys y canlynol:-**

1. **penderfyniad unfrydol y Cyd-bwyllgor i gymeradwyo cynnig Adolygu a Diwygio ERW fel model waith;**

2. **gofyn bod £750k o'r Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol yn cael ei neilltuo. Dylai cytundeb Llywodraeth Cymru barhau am o leiaf 5 mlynedd a byddai Awdurdodau Lleol yn ymrwymo i gyfrannu cyfanswm o £250k o leiaf bob blwyddyn dros yr un cyfnod;**

3. **ceisio eglurdeb mewn perthynas â'r £500k o gyllid Adolygu a Diwygio ychwanegol.**

**7.4 fel ffordd ymlaen, byddai ERW yn cyllido swyddi'r Rheolwr-gyfarwyddwr a staff gweinyddol yn unig.**

## 8. ADRODDIADAU CYLLID:

### 8.1. ADRODDIAD MONITRO CYLLID

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ariannol ar gyfer 2018-19 a oedd yn rhoi gwybodaeth fanwl a phenodol am y canlynol:

- Cyllideb y Tîm Canolog 2018-19
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- Dyraniadau Grant 2018-19
- Grantiau 2018-19 - Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol
- Blaenoriaethau Cynllun Busnes ERW 2018-19
- Rhaglen Adolygu a Diwygio ERW
- Risgiau
- Cronfeydd wrth gefn.

Roedd tabl cyllido wedi'i ddiweddaru a oedd yn cynnwys cyllid ychwanegol y Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol wedi'i ddosbarthu i'r Pwyllgor. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor mai cyfanswm y cyllid grant ychwanegol oedd £4.542 miliwn.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor y gallai'r cyfraniad blynyddol arfaethedig o'r cronfeydd wrth gefn i'r tîm canolog ar gyfer 2018-19 godi i £85k os na fydd Castell-nedd Port Talbot yn talu ei gyfran o'r Cyfraniad Awdurdod Lleol. Dywedodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot y bydd o bosibl yn rhoi gwybod o dynnu'n ôl o ERW erbyn 31 Mawrth 2019.

**CYTUNWYD**

**8.1.1 Bod y newidiadau i Gyllideb y Tîm Canolog 2018-19 yn cael eu cymeradwyo;**

**8.1.2 Bod penderfyniad ynghylch y camau gweithredu o ran CCNPT yn gwrthod talu ei gyfran o'r Cyfraniad Awdurdod Lleol gwerth £250k ar gyfer 2018-19 yn cael ei atal am y tro.**

**8.1.3 Cymeradwyo'r dyraniad o £30k sy'n weddill o'r cyllid £250k gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen Adolygu a Diwygio;**

**8.1.4 Bod y cyllid grant ychwanegol sy'n gyfanswm o £4.542 miliwn ers y cyfarfod diwethaf yn cael ei nodi.**

### 8.2. RHEOLIADAU ARIANNOL A RHEOLAU GWEITHDREFNAU CONTRACT

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried adroddiad ar Reoliadau Ariannol a Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau Cyngor Sir Penfro er defnydd ERW. Roedd y Cyd-bwyllgor wedi penderfynu defnyddio Rheoliadau Ariannol ei Awdurdod Arweiniol ar gyfer Cyllid, a Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau ei Awdurdod Lleol ar gyfer Contractau a Gweithdrefnau. Dywedwyd mai Cyngor Sir Penfro oedd yr Awdurdod Arweiniol a oedd yn gyfrifol am y ddau faes ac roedd wedi cymeradwyo Rheoliadau Ariannol a Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau diwygiedig ym mis Rhagfyr 2018.

**CYTUNWYD**

**8.2.1 bod Rheoliadau Ariannol diwygiedig Cyngor Sir Penfro (Tachwedd 2018) yn cael eu mabwysiadu er defnydd ERW;**

**8.2.2 bod Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau Cyngor Sir Penfro (Rhagfyr 2018) yn cael eu mabwysiadu er defnydd ERW;**

**8.2.3 bod Cadeirydd ERW (neu'r Is-gadeirydd os bydd hi'n absennol) yn cael ei chymeradwyo'n Aelod Annibynnol y Cabinet at ddibenion y Rheoliadau Ariannol a'r Rheolau o ran Gweithdrefnau Contractau.**

### 8.3. RHAGLEN WAITH AWDIT MEWNOL 2018-19

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried y flaenraglen waith archwilio mewnol ar gyfer 2018/19.

**CYTUNWYD i gymeradwyo'r flaenraglen waith archwilio mewnol ar gyfer 2018/19.**

## 9. COFRESTRE RISG

Cafodd y Cyd-bwyllgor y Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer 2018-19 a oedd yn cynnwys risgiau busnes strategol (bygythiadau) a allai gael effaith niweidiol ar gyflawni Gweledigaeth ac Amcanion ERW fel y'u hamlinellwyd yng Nghynllun Busnes ERW.

Dywedwyd bod y Gofrestr Risg wedi'i diweddaru ac roedd rhai o'r risgiau wedi symud i gategorïau eraill ers cyfarfod blaenorol y Cyd-bwyllgor, yn sgil cyngor gan Swyddog Adran 151 y rhanbarth a'r adborth gan Fwrdd Gweithredol ERW.

**CYTUNWYD bod:**

**9.1 y Gofrestr Risg yn cael ei derbyn;**

**9.2 yr ychwanegiad o'r lefelau goddefgarwch y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod blaenorol y Cyd-bwyllgor yn cael ei nodi;**

**9.3 bod yr argymhelliad i gael gwared â'r risg mewn perthynas â Llety'r Tîm Canolog yn cael ei gymeradwyo.**

## 10. SWYDDOGAETHIAU ARWEINIOL / CLG

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried adroddiad ynghylch trefniadau presennol ar gyfer neilltuo swyddogaethau Awdurdod Lleol a Chytundebau Lefel Gwasanaeth. Nodwyd mai'r Cyd-bwyllgor sy'n gyfrifol am benodi Awdurdod Arweiniol ar gyfer pob un o'r swyddogaethau arweiniol ac roedd wedi gwneud hynny ar gyfer Cytundeb Cyfreithiol 2014. Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor fod rhai o'r swyddogaethau Awdurdod Lleol wedi newid ers y Cytundeb Cyfreithiol hwnnw ac roedd y Cytundebau Lefel Gwasanaeth mewn perthynas â swyddogaethau ychwanegol wedi cael eu sefydlu gan yr Awdurdodau Arweiniol perthnasol, heb gael cydymffurfiaeth ffurfiol y Cyd-bwyllgor.

**CYTUNWYD bod:**

**10.1 swyddogaethau'r Awdurdodau Arweiniol a amlinellir yng Nghytundeb Gwasanaeth 2014 yn cael eu nodi;**

**10.2 bod y trefniadau presennol o ran neilltuo swyddogaethau Awdurdod Arweiniol lle bo newidiadau wedi'u rhoi ar waith, yn enwedig swyddogaeth Cyngor Sir Penfro fel Awdurdod Arweiniol o ran Contractau a Chaffael ar gyfer Adnoddau Dynol, yn cael eu cymeradwyo;**

**10.3 bod y trefniadau presennol o ran neilltuo swyddogaethau ychwanegol yn amodol ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth yn cael eu cymeradwyo.**

## 11. CYLLIDEB 2019-2020

Cytunodd y Cyd-bwyllgor, ar gais y Cadeirydd, i ohirio trafod yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

## 12. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG, BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972

O ystyried penderfyniad blaenorol y Cyd-bwyllgor (gweler Eitem 7 ar y Cofnod) o ran y Cynnig Adolygu a Diwygio, dywedodd Mr Geraint Rees y byddai'n cyhoeddi datganiad i'r staff er mwyn rhoi gwybod iddynt fod y Cyd-bwyllgor wedi cymeradwyo'r Strwythur Staffio newydd yn unfrydol ac y byddai'n gweithio i ddatrys materion cyllidebol mor gyflym â phosibl. Nododd hefyd y byddai'n dechrau gweithio i sicrhau capasiti'r Tîm Canolog ar gyfer y cyfnod dros dro cyn i'r strwythur newydd gael ei weithredu. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiadau.

## 13. ADRODDIADAU NAD YDYNT I'W CYHOEDDI

**CYTUNWYD, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraffau 13 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 14. CYNNIG AR ADOLYGU AC ADNEWYDDU ERW

Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor nad oedd cworwm mwyach ac felly nid oedd yn gallu ystyried yr eitem hon na gwneud penderfyniad ffurfiol.

## 15. GWYBODAETH ARIANNOL A STAFFIO

Rhoddwyd gwybod i'r Cyd-bwyllgor nad oedd cworwm mwyach ac felly nid oedd yn gallu ystyried yr eitem hon na gwneud penderfyniad ffurfiol.

____________________________ _____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**